Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr
Bryntirion
Rhaeadr
Powys
LD6 5LT

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau<br>
Estyn<br>
Llys Angor, Heol Keen<br>
Caerdydd<br>
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Ysgol a reolir yn wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Gynradd Rhaeadr, sy'n gwasanaethu tref farchnad Rhaeadr ym Mhowys a'r ardal wledig gyfagos.

Mae 162 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae chwe dosbarth oedran cymysg, y mae dau ohonynt yn ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg dynodedig.

Ar hyn o bryd, mae gan ryw 16% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn islaw cyfartaledd cenedlaethol Cymru gyfan. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd disgyblion yn bennaf (98%). Dywed yr ysgol fod tua 16% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith gartref. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2008. Penodwyd y pennaeth yn 2008. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwnaed newidiadau sylweddol o ran staff.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Rhaeadr yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,190 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £10,978 a'r isafswm yw £3,102. Mae Ysgol Gynradd Rhaeadr yn safle 26 allan o'r 88 o ysgolion cynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae safonau mewn medrau llafaredd a darllen yn dda;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- mae strategaethau asesu ac asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol;
- mae staff yn rhoi lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion; ac
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion eu gwerthfawrogi.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion mwy abl yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni eu llawn botensial;
- nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith ar draws y cwricwlwm;
- nid yw medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn datblygu'n dda; ac
- nid yw'r addysgu'n gyson dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae systemau rheoli perfformiad yn nodi meysydd ar gyfer datblygiad staff ac yn mynd i'r afael ag unrhyw danberfformio yn effeithiol;
- mae gan arweinwyr ysgol ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, sy'n deillio o weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol;
- mae pob aelod o staff yn glir ynglŷn â'u rolau wrth roi strategaethau gwella ar waith, sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau; ac
- mae'r corff llywodraethol yn effeithiol wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a gyflawnir ganddi.

## Argymhellion

A1 Datblygu gallu disgyblion i gymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith

A2 Gwella medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg ail iaith

A3 Cynyddu lefel yr her ar gyfer disgyblion mwy abl

A4 Gwella ansawdd yr addysgu fel ei fod yn dda neu'n well ar draws yr ysgol

A5 Gwella cyfraddau presenoldeb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae disgyblion yn dechrau'r ysgol â safonau sy'n cyd-fynd yn fras â'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion gallu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y dylent.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae llawer ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw medrau llafaredd rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg yn gyson gryf. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n dda ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddal ati i ganolbwyntio am gyfnodau priodol mewn gwersi.

Mae safonau darllen yn dda yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth dda am seiniau llythrennau. Defnyddiant ystod addas o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos diddordeb yn y llyfrau y maent yn eu darllen ac maent yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol o wahanol fathau o lyfrau, gan gynnwys llyfrau ffuglen a llyfrau ffeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Maent yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad stori. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer ohonynt yn cymhwyso'u medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau a gallant leoli a defnyddio cyfeirlyfrau yn effeithiol. Mae disgyblion gallu uwch yn gallu brasddarllen testun yn gynyddol i gael ei ystyr a chasglu gwybodaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn creu brawddegau byrion ac yn gwneud defnydd priodol o ganllawiau i ysgrifennu storïau. Maent yn gwneud cynigion ffonig credadwy i sillafu geiriau yn gywir. Mae disgyblion hŷn yn aml yn cynhyrchu darnau o waith ystyriol ac estynedig. Fodd bynnag, mae safon medrau sillafu disgyblion yn anghyson ac nid yw'r mwyafrif ohonynt yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus neu'n atalnodi hyn yn gywir yn rheolaidd. Nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n dda neu ar lefel ddigon uchel mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Mae llawer ohonynt yn dechrau'n briodol wrth ddysgu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddefnyddio'u medrau siarad a gwrando. Maent yn ateb ystod o gwestiynau am y tywydd, gwahanol liwiau a'r hyn y maent yn eu hoffi a'r pethau nad ydynt yn eu hoffi. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio'u Cymraeg yn annibynnol ac mae eu hymatebion yn aml yn ansicr. Mae medrau darllen ac ysgrifennu annibynnol disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn datblygu'n rhy araf.

Mae safonau'n dda ar y cyfan mewn rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adio a thynnu rhifau dau ddigid i 100 yn gywir, yn mesur gan ddefnyddio unedau safonol, yn dweud yr amser yn briodol ac yn adnabod siapiau sylfaenol. Maent yn deall odrifau ac eilrifau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Maent yn cymhwyso'u medrau mewn meysydd fel rhif, mesur a thrin data yn hyderus i ddatrys problemau. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu a chyflwyno canlyniadau gan ddefnyddio tablau a graffiau mewn gwyddoniaeth a hanes.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda, gan ddefnyddio ystod o gymwysiadau gyda chymhwysedd cynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u hoedran.

Mae niferoedd bach y disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn effeithio ar dueddiadau yn y data ar berfformiad yr ysgol. Felly, mae tueddiadau'n rhoi syniad bras yn unig o berfformiad yr ysgol dros gyfnod.

Yn 2013, roedd perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn y 50% is mewn medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg a datblygiad mathemategol. Yn 2012, roedd perfformiad yn y 25% isaf mewn medrau Cymraeg a datblygiad mathemategol ac yn y 50% uwch ar gyfer medrau Saesneg. Roedd cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion mwy abl ar y deilliant 6 uwch yn 2013 yn y 50% is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg, ond yn y 25% uchaf mewn Cymraeg a datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad disgyblion yn llawer gwell nag ydoedd yn 2012, heblaw mewn medrau Saesneg, a oedd yn y 25% uchaf yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf, ac mae perfformiad mewn Saesneg yn amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 wedi amrywio dros yr un cyfnod hefyd, ac yn 2013 roedd yn y 25% uchaf ar gyfer Cymraeg, y 50% is ar gyfer Saesneg a'r 25% isaf ar gyfer mathemateg.

## Lles: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfeillgar, yn foesgar ac yn gwrtais at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn cydweithio ac yn cydweithredu'n dda mewn sefyllfaoedd grŵp. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol, maent yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw broblemau. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda trwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fyw yn iach trwy fwyta diet cytbwys a byw bywyd gweithgar. Mae aelodau o'r cynghorau ysgol amrywiol yn cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau o ddifrif. Mae cyngor iechyd yr ysgol yn hyrwyddo blychau bwyd iach yn llwyddiannus. Mae'r pwyllgor eco wedi cyflwyno biniau ailgylchu ar draws yr ysgol ac mae cynghorwyr ysgol yn trefnu llawer o ddigwyddiadau elusennol.

Trwy'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, fel pêl-droed, rygbi a chriced, mae disgyblion yn meithrin eu hunan-barch ac yn datblygu eu hyder. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y clybiau ar ôl yr ysgol a ddarperir gan yr ysgol.

Mae disgyblion yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella ac maent yn myfyrio ar eu cynnydd a'u cyflawniadau.

Cyfradd presenoldeb gyffredinol yr ysgol y llynedd oedd y gyfradd uchaf a gyflawnwyd dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag mae'r ysgol wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae prydlondeb ar ddechrau'r diwrnod yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Mae athrawon yn trefnu ystod dda o gyfleoedd diddorol a chyffrous ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o weithgareddau i ddisgyblion ag anghenion penodol ac i'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i'w helpu i ddal i fyny â'u cyfoedion. Mae ystod eang yr ymweliadau a'r gweithgareddau allgyrsiol yn gwella ac yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda ar y cyfan. Mae athrawon yn cydweithredu'n bwrpasol i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn anghyson. Nid yw'r ysgol yn sicrhau bod medrau sillafu, atalnodi a llawysgrifen disgyblion yn gyson effeithiol.

Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer cyflwyno Cymraeg, ond nid yw cynllunio ar gyfer Cymraeg ail iaith yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw'r ysgol yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn

ddigon da yn amgylchedd yr ysgol. Mae'r ysgol wrthi'n gweithio i ddatblygu hyn ymhellach ar hyn o bryd. Mae'n hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru'n dda trwy ei gweithgareddau cynlluniedig a'i hymweliadau addysgol â lleoedd o ddiddordeb.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r pwyllgor eco yn helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae mwyafrif y gwersi'n symud yn dda ac mae athrawon yn defnyddio holi yn llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Ceir perthnasoedd gweithio da iawn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ac mae hyn yn cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth targedig da ar gyfer dysgu disgyblion. Mae llawer o wersi'n cynnwys amcanion dysgu clir ac mae athrawon yn defnyddio sesiynau llawn yn dda i grynhoi'r wers ac asesu dealltwriaeth disgyblion.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu'n llai llwyddiannus, nid yw gwersi'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac nid yw holi yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Ni chaiff gweithgareddau eu haddasu'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl.

Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gydwybodol ac yn aml yn rhoi adborth defnyddiol ar sut gallant wella'u gwaith. Mae'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu, fel 'partneriaid sy'n siarad' a hunanasesu ac asesu cyfoedion gan ddisgyblion hŷn, yn dda. Mae athrawon yn olrhain ac asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Ceir trefniadau mewnol addas i helpu i safoni gwaith disgyblion a sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon. Mae sawl adroddiad i rieni yn ystod y flwyddyn ysgol ac mae'r rhain yn addysgiadol ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a lles disgyblion. Mae disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd hylendid personol ac yn cadw eu hunain yn heini ac yn iach.

Mae lefel uchel y gofal a'r berthynas dda rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy ymwelwyr a gwersi cynlluniedig.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli gyda gwasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol i roi lefel dda o gymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae cymorth wedi'i dargedu'n glir ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed wedi arwain at gynnydd da yn eu dysgu, eu hagweddau a'u hymddygiad.

Mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau ar waith i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn delio'n gyflym ac yn effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio. Mae system 'cyfeillion' maes chwarae'r ysgol wedi hen ennill ei phlwyf ac mae'n sicrhau bod pob disgybl yn hapus yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Ceir darpariaeth dda i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi anghenion ychwanegol disgyblion yn gynnar ac yn rhoi cymorth priodol ar waith yn gyflym. Mae targedau yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion yn benodol. Caiff rhieni ddigon o gyfleoedd i gyfrannu at y trafodaethau am gynnydd eu plant. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi rhaglenni ymyrraeth ar waith yn dda ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gwbl gynhwysol, sy'n hyrwyddo ethos hapus a gofalgar yn unol â gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Mae'n delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio neu unrhyw fath arall o aflonyddu neu wahaniaethu. Mae polisi cydraddoldeb a chynllun gweithredu anabledd yr ysgol yn effeithiol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae adeilad yr ysgol yn bodloni anghenion disgyblion a staff yn dda. Mae'n eang ac yn cynnig amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu. Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda, mae'n rhydd o sbwriel, yn ddiogel ac yn saff. Caiff holl ystafelloedd y Cyfnod Sylfaen fynediad uniongyrchol at yr amgylchedd allanol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i hardal allanol ddatblygedig ac mae disgyblion yn elwa ar y tir helaeth.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Mae disgyblion a staff yn gwneud defnydd da o'r adnoddau hyn, yn enwedig yr adnoddau TGCh a darllen. Mae arddangosiadau o amgylch yr ysgol yn ysgogol ac yn dathlu cyflawniad a chynnydd disgyblion yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth drylwyr o anghenion yr ysgol a gweledigaeth glir ar gyfer ei datblygiad yn y dyfodol. Mae hi wedi sefydlu systemau cadarn ac effeithiol i ysgogi newid. Mae'r pennaeth a'r staff wedi rhannu dyheadau ar gyfer yr ysgol ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ers lles pennaf y plant.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff yn glir ac mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol. Caiff cyfarfodydd eu rheoli'n effeithiol, ac mae ffocws clir ar wella deilliannau disgyblion. Mae aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio'n dda gyda'r pennaeth i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd gan systemau olrhain disgyblion. Mae uwch arweinwyr wedi gwneud cynnydd da wrth fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol hefyd, er enghraifft wrth roi'r Fframwaith

Llythrennedd a Rhifedd ar waith a sefydlu asesu ar gyfer dysgu yn gadarn mewn dosbarthiadau.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel iawn o staff, llywodraethwyr a disgyblion. Mae'n cyfleu'r rhain yn glir ac yn mynd i'r afael â thanberfformio yn effeithiol. Ers ei phenodi, mae wedi goruchwylio nifer o newidiadau sylweddol i staffio, wedi sicrhau gwelliannau i'r corff llywodraethol ac wedi mynd i'r afael â thangyflawni. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn herio staff yn effeithiol i wella'u harfer trwy dargedau sy'n ganolog i gynllunio datblygiad ysgol gyfan. Mae hyn wedi gwella safonau disgyblion mewn darllen a rhifedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn hynod effeithiol. Mae llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth y pennaeth ac yn mynd ati i gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r ddealltwriaeth eglur hon yn eu galluogi i herio'r ysgol a'i dwyn i gyfrif.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu gadarn yr ysgol yn llwyddiannus wrth nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol, mae'n dadansoddi canlyniadau ac yn gweithredu yn unol â deilliannau yn ofalus. Mae'r prosesau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chynllunio strategol yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi data ar berfformiad disgyblion yn effeithiol a defnyddiant y wybodaeth yn briodol i lywio'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu meysydd pwnc eu hunain ac yn llunio cynlluniau gweithredu addas.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol ac mae targedau yn y cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant a dyraniad adnoddau addas. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn erbyn targedau parhaus yn dda ac yn gwneud addasiadau priodol os nad yw disgyblion ar y trywydd iawn i gyflawni'r deilliannau a fwriedir. Ceir cyswllt clir rhwng hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

Mae gan yr ysgol hanes cryf o roi gwelliannau ar waith. Mae'r camau a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at welliannau sylweddol mewn meysydd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mawr yng nghyflawniadau bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a helpu disgyblion sydd ar ei hôl hi i ddal i fyny'n effeithiol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fodloni'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i gynyddu cyfleoedd a gwella safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae'r bartneriaeth â rhieni yn gryfder yn yr ysgol ac mae rhieni'n gwerthfawrogi lefel y gofal a'r cymorth a gaiff

eu plant. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gweithio'n llwyddiannus i godi proffil yr ysgol yn y gymuned trwy ystod o weithgareddau codi arian. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi prynu cyfrifiaduron ac adnoddau eraill, sydd wedi cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae cysylltiadau â'r gymuned yn gryf ac amrywiol ac mae disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o wasanaethau'r awdurdod lleol fel y swyddog lles addysg i hyrwyddo presenoldeb da. Ceir cyswllt cryf iawn â'r eglwys leol. Mae'r ficer lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn arwain gweithredoedd addoli ar y cyd.

Mae cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r lleoliadau cyn-ysgol sydd wedi'u lleoli ar safle'r ysgol. Mae trefniadau pontio effeithiol yn bodoli gyda thair ysgol uwchradd yr aiff y disgyblion iddynt ac mae hyn yn galluogi disgyblion Blwyddyn 6 i symud i Flwyddyn 7 yn hyderus. Mae cyfarfodydd safoni gydag ysgolion yn y clwstwr yn sicrhau bod athrawon yn datblygu cysondeb a chywirdeb wrth asesu gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn elwa ar bartneriaeth effeithiol gyda'r awdurdod lleol er mwyn datblygu staff, ymateb i anghenion disgyblion a chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Er gwaethaf newidiadau o ran staff yn ddiweddar, mae'r ysgol yn cynnal cyflenwad llawn o athrawon sydd â phrofiad a chymwysterau priodol. Mae gan staff cymorth rolau a chyfrifoldebau diffiniedig. Maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm gydag athrawon ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddysgu a lles disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Caiff pob un o'r staff gyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, sydd wedi'i gysylltu â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol a'u hadolygiadau blynyddol. Mae eu cyfranogiad mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol yn datblygu'n briodol.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn bodloni gofynion statudol. Maent yn cynnwys pob un o'r athrawon a'r staff cymorth wrth gytuno ar dargedau proffesiynol a personol perthnasol.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion y cytundeb baich gwaith cenedlaethol. Mae'n sicrhau ei bod yn darparu'n briodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae'r ysgol yn rheoli'i hadnoddau a'i hadeiladau'n dda. Mae diffyg yn ei chyllideb ar hyn o bryd, a gododd yn bennaf oherwydd salwch ymhlith staff yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac mae rheolaethau ariannol priodol ar waith. Mae'r swm sy'n cael ei wario ar ddeunyddiau i ddisgyblion yn briodol ac wedi'i gysylltu â meysydd blaenoriaeth.

Oherwydd y diffygion a nodwyd mewn safonau, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd perfformiad disgyblion ar y deilliant 5 disgwyliedig islaw cyfartaledd y teulu mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg a Saesneg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Ar y deilliant 6 uwch yn 2013, perfformiodd disgyblion mwy abl uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn medrau Cymraeg, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol.

Yn 2013, roedd perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn y 50% is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg a Saesneg a datblygiad mathemategol. Yn 2012, roedd perfformiad yn y 25% isaf mewn medrau Cymraeg a datblygiad mathemategol ac yn y 50% uwch ar gyfer medrau Saesneg.

Roedd cyrhaeddiad ar y deilliant 6 uwch yn 2013 yn y 50% is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg, ond yn y 25% uchaf mewn medrau Cymraeg a datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad disgyblion yn llawer gwell yn 2013, heblaw mewn medrau llythrennedd Saesneg, a oedd yn y 25% uchaf yn 2012.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pynciau craidd, ond ar y lefel 5 uwch roedd islaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r pynciau craidd, heblaw mewn Cymraeg lle roedd yn llawer uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf, ac mae perfformiad mewn Saesneg yn amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf. Mae perfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 wedi amrywio dros yr un cyfnod ac, yn 2013, roedd yn y 25% uchaf ar gyfer Cymraeg, y 50% is ar gyfer Saesneg a'r 25% isaf ar gyfer mathemateg.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched ar y cyfan, ond yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf, mae merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel 5 uwch. Nid yw'r disgyblion hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cystal o'i gymharu.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 84 | 83<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 83 | 81<br>98% | 2<br>2% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 84 | 79<br>94% | 5<br>6% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 81 | 77<br>95% | 4<br>5% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 84 | 75<br>89% | 9<br>11% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 84 | 82<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 84 | 83<br>99% | 1<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 84 | 82<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 82 | 76<br>93% | 6<br>7% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 84 | 81<br>96% | 3<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 76 | 60<br>79% | 16<br>21% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 77 | 66<br>86% | 11<br>14% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 10 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 48% | 48% | 5% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 16 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 19% | 5% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 21 | 15 | 6 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 11 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 52% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 8 | 10 | 1 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 38% | 48% | 5% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 21 | 8 | 12 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 38% | 57% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 9 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 43% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 4 | 10 | 1 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 22% | 56% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 12 | 5 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 57% | 24% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 8 | 10 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 38% | 48% | 10% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 21 | 8 | 11 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 38% | 52% | 5% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 7 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 8 | 11 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 52% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 10<br>50% | 8<br>40% | 0<br>0% | 1<br>5% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 6<br>29% | 9<br>43% | 1<br>5% | 1<br>5% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 20 | 10<br>50% | 10<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 5<br>29% | 7<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 7<br>35% | 8<br>40% | 2<br>10% | 2<br>10% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 7<br>35% | 9<br>45% | 2<br>10% | 1<br>5% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Lay Inspector | Arolygydd Lleyg |
| Gwynne Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Linda Crockett | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.